Addewid Bwyd Teg

Gweithio gyda'n gilydd am fwyd teg

Mae Bwyd Caerdydd yn ymgyrch uchelgeisiol i gael busnesau, sefydliadau ac unigolion ledled y ddinas i brynu, gweini a hyrwyddo bwyd cynaliadwy, teg.

Ymunwch â'r ymgyrch drwy gofrestru i'r Egwyddorion Bwyd Teg ac addo gwneud o leiaf un peth.

Mae ystod eang o sefydliadau yng Nghaerdydd yn ymuno â ni – ysgolion, siopau, corfforaethau, manwerthwyr, cyfanwerthwyr ac elusennau – gyda chefnogaeth frwd eu cwsmeriaid a'u cleientiaid.





Drwy lofnodi Addewid Bwyd Caerdydd rydym yn addo gweithredu'n briodol i gefnogi'r 10 egwyddor bwyd teg ac i:

1. ***Ddangos ymrwymiad*** – byddwn yn dweud wrth ein cwsmeriaid a'r cyhoedd ein bod yn datblygu ac yn gweithredu polisi bwyd teg yn ein busnes ac y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau.

2. ***Gwneud penderfyniadau gwybodus*** – byddwn yn asesu'r effaith a gaiff y bwyd rydym yn ei brynu a'i weini o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a lles, gan wybod o le y daw ein bwyd a sut y caiff ei gynhyrchu.

3. ***Dod o hyd i fwyd cynaliadwy*** – gwnawn ddewisiadau ar fwyd cynaliadwy gan gynnwys:

   a. **Osgoi'r gwaethaf:** Gofyn i'n cyflenwyr neu ein harlwywyr beidio â defnyddio mathau o bysgod sydd dan fygythiad, cynnyrch o ffermydd batri, nwyddau sy'n cael eu cludo ar awyrennau a nwyddau â gormodedd o ddeunydd pecynnu arnynt.

   b. **Dewis y gorau:** Gweini bwyd a diod ffres, tymhorol, organig a masnach deg, lleihau gwastraff bwyd, ac ailgylchu hyd eithaf y gallwn..

   c. **Dylanwadu ar eraill:** Dweud wrth ein cyflenwyr a'n cwsmeriaid pam ein bod am weini bwyd cynaliadwy – a rhannu gwybodaeth am le y gallan nhw gael help ynghylch hyn.

4. ***Bod yn agored ac yn glir*** – byddwn yn rhannu gwybodaeth â'n cwsmeriaid, cyflenwyr, arlwywyr a'n cyflogeion am fwyd cynaliadwy gan ddangos ein hymrwymiad i weithredu drwy arddangos ein haddewid (ar-lein neu ar ein safle).

5. ***Dylanwadu ar newid*** – byddwn yn cefnogi newid cadarnhaol dros fwyd cynaliadwy drwy ddefnyddio ein dylanwad i annog sefydliadau eraill i weithredu ac ymuno ag ymgyrch Bwyd Caerdydd.

Addewid Bwyd Teg

Ein haddewid: pa gamau y byddwch yn eu cymryd a gaiff newid sylweddol dros y 12 mis nesaf?

Llofnod: _____

Enw: _____

Rôl: _____

Sefydliad: _____

Dyddiad: _____

I'w gwblhau gan fusnesau sy'n gweini ac yn gwerthu bwyd:

Rwy'n cadarnhau bod [sefydliad] wedi cyflawni Sgôr Hylendid Bwyd o 3 neu uwch (ticiwch) ☐



www.bwydcaerdydd.com

Cardiff SUSTAINABLE FOOD cities Network Member